Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# YGG Y Wern
# Clare Road
# Ystalyfera
# Abertawe
# SA9 2AJ

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 04/08/2015**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Gymunedol Y Wern ym mhentref Ystalyfera yng Nghwm Tawe. Daw o dan ofal awdurdod Castell-nedd Port Talbot. Mae 154 disgybl rhwng 3-11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 28 o ddisgyblion oed meithrin rhan-amser. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu o fewn chwe dosbarth, gan gynnwys dau ddosbarth oed cymysg. Cymraeg yw prif gyfrwng iaith yr ysgol.

Daw tua 18% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Mae tua 30% yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae'r ysgol wedi adnabod 19% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes yr un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig ac nid oes gan yr ysgol ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Ebrill 2001 a chafodd yr ysgol ei harolygiad diwethaf ym mis Mawrth 2010. Mae'r pennaeth parhaol ar gyfnod secondiad ers Medi 2014 a phenodwyd pennaeth gweithredol dros dro i arwain yr ysgol yn ei absenoldeb.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Y Wern yn 2014-2015 yw £3,589. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Nghastell-nedd Port Talbot yw £7,108 a'r lleiafswm yw £2,863. Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Y Wern yn safle 31 o'r 66 ysgol gynradd yng Nghastell-nedd Port Talbot o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Digonol |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Bod llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu
- O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae medrau llafar Cymraeg disgyblion yn datblygu'n fuan ar ôl cychwyn yn yr ysgol
- Mae medrau gwrando'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dda
- Bod medrau meddwl y disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus
- Bod rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd mewn gwersi ac mae ymddygiad bron pob un yn dda iawn
- Bod yr ysgol yn atgyfnerthu profiadau dysgu disgyblion yn effeithiol drwy drefnu ystod dda o weithgareddau ymarferol diddorol

Fodd bynnag:

- Yn gyffredinol, nid yw'r disgyblion mwy abl a thalentog yn cyrraedd eu llawn botensial
- Nid yw medrau darllen Cymraeg y lleiafrif o ddisgyblion wedi eu datblygu'n ddigonol
- Nid yw'r athrawon yn cynllunio'n ddigonol ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu estynedig disgyblion
- Cyfyng yw dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion ynglŷn â sut i asesu a gwella gwaith eu hunain

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Bod gan arweinwyr weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel
- Mae'r corff llywodraethol yn herio'r ysgol mewn meysydd sydd angen eu gwella yn effeithiol
- Mae'r broses hunan arfarnu wedi ei seilio ar gasglu gwybodaeth o ystod gynhwysfawr o ffynonellau
- Mae'r ysgol yn cydgysylltu blaenoriaethau'r ysgol a datblygiad proffesiynol y staff â thargedau rheoli perfformiad yn effeithiol
- Mae'r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol
- Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion

Fodd bynnag:

- Nid yw'r ysgol yn gweithredu'n ddigon effeithiol ar wybodaeth sy'n deillio o'r broses hunan arfarnu er mwyn codi safonau
- Nid yw blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol bob amser yn ddigon penodol
- Nid yw'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o feini prawf llwyddiant er mwyn mesur effaith y cynllun gwella ysgol

## Argymhellion

A1 Codi safonau disgyblion mwy abl

A2 Gwella safonau darllen Cymraeg

A3 Darparu mwy o gyfleoedd i ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm

A4 Gwella trefniadau asesu i helpu disgyblion wybod sut i wella'u gwaith

A5 Sicrhau bod y broses hunan arfarnu yn adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwelliant yn well er mwyn eu cynnwys yn y cynllun gwella ysgol

A6 Gwneud defnydd effeithiol o feini prawf llwyddiant er mwyn mesur deilliannau y cynllun gwella ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Ar fynediad i'r ysgol, mae medrau sylfaenol y rhan fwyaf o ddisgyblion islaw'r disgwyliedig. Fodd bynnag, mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu'n dda mewn gwersi ac yn datblygu medrau dysgu annibynnol yn briodol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy galluog bob amser yn cyflawni gystal ag y gallent.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llafar yn dda ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa yn llwyddiannus mewn sefyllfaoedd gwahanol. Maent yn awyddus i drafod a chynnal sgyrsiau yn y Gymraeg yn fuan ar ôl cychwyn yn yr ysgol. Wrth iddynt gyrraedd ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn dda i gwestiynau ac yn cyfrannu'n werthfawr i drafodaethau o fewn y dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu ar lafar yn gadarn yn y Gymraeg ac yn datblygu ystod briodol o eirfa bynciol. Mae medrau llafar Saesneg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Maent yn medru trafod yn briodol o fewn grwpiau bychan gan fynegi barn yn glir.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n gadarn. Mae disgyblion yn adnabod seiniau ac yn dechrau adeiladu geiriau o oedran cynnar iawn. Maent yn adeiladu'n llwyddiannus ar y medrau hyn gan ddefnyddio strategaethau addas i ddarllen yn gymharol rugl erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg yn briodol. Maent yn datblygu mwy o ruglder ac yn dangos dealltwriaeth briodol o'r testun. Gallant drafod ystod o ddeunydd darllen yn aeddfed a mynegi barn am eu hoff awduron. Fodd bynnag, nid yw medrau darllen Cymraeg y lleiafrif o ddisgyblion wedi eu datblygu'n ddigonol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn medru ysgrifennu dilyniant o frawddegau gyda chywirdeb gan ddefnyddio atalnodi sylfaenol yn gywir. Maent yn ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau ac at wahanol gynulleidfaoedd yn llwyddiannus ac mae ychydig ohonynt yn dechrau amrywio cychwyn brawddegau yn effeithiol, er enghraifft, wrth ysgrifennu portread am eu teulu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm yn briodol. Maent yn medru ysgrifennu at wahanol bwrpas a chynulleidfaoedd ac erbyn diwedd y cyfnod, mae sillafu ac atalnodi y rhan fwyaf yn gadarn. Maent yn defnyddio paragraffau'n llwyddiannus i drefnu gwaith ac yn drafftio a gwella darnau yn addas. Fodd bynnag, nid yw eu gallu i ysgrifennu'n estynedig yn ddigon datblygedig ac, o ganlyniad, mae hyn yn cael effaith ar allu'r disgyblion i gyrraedd y lefelau uwch.

Mae medrau gwrando'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dda. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn cyfrannu'n werthfawr i drafodaethau ac yn defnyddio'u medrau meddwl yn llwyddiannus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer

o'r disgyblion yn cyfrannu'n briodol i drafodaethau dosbarth ac yn hyderus wrth fynegi barn mewn grwpiau llai. Mae medrau meddwl llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn gadarn. Erbyn diwedd y cyfnod, gall llawer ohonynt gymhwyso'u medrau i ddatrys problemau adio, tynnu a lluosi'n gywir. Maent yn medru datrys problemau arian, defnyddio unedau safonol i fesur a chasglu a chofnodi data ar ffurf graff bar. Yng nghyfnod allweddol 2, gall llawer o ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhif yn briodol ar draws meysydd eraill y cwricwlwm. Maent yn defnyddio ystod o strategaethau priodol i ddatrys problemau rhif yn llwyddiannus. Gallent gofnodi data yn gadarn gan ddefnyddio gwahanol graffiau i gofnodi data ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, wrth gymharu tymheredd Abertawe â Madrid a chofnodi arbrawf ffrithiant mewn gwyddoniaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd yn erbyn eu targedau personol.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol yng nghyflawniad bechgyn a merched yn y lefelau disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, mae tueddiad dros amser i'r merched berfformio'n well na'r bechgyn yng nghyfnod allweddol 2, yn enwedig mewn Saesneg a Chymraeg.

Yn gyffredinol dros y pedair blynedd diwethaf, mae'r bwlch yng nghyflawniad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion wedi lleihau.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o dair blynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) o'i gymharu ag ysgolion tebyg wedi amrywio rhwng yr 25% uchaf a'r 25% isaf mewn datblygiad llythrennedd a datblygiad mathemategol. Yn 2014, roedd perfformiad yr ysgol yn yr 25% uchaf mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol.

Yn gyffredinol, dros y tair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad ar y deilliant uwch (deilliant 6) wedi dangos gwelliant. Yn 2014, mae'r perfformiad mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol yn gosod yr ysgol yn yr 50% uwch.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel 4 ddisgwyliedig wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf dros y pedair blynedd ddiwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg ym mhob pwnc craidd. Yn 2014, mae'r perfformiad yn gosod yr ysgol o fewn y 25% isaf mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ac yn y 50% is ar gyfer Cymraeg.

Yn gyffredinol, dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch (lefel 5) wedi ei gosod rhwng y 50% uwch a'r 25% isaf mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Yn 2014, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch yn gosod yr ysgol o fewn y 25% isaf.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt bryderon. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach ac maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd arbennig i ddatblygu ffitrwydd. Mae presenoldeb a phrydlondeb disgyblion yn dda. Mae canran presenoldeb yn gyson uchel ac wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf neu'r 50% uwch o'i gymharu ag ysgolion tebyg dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn hapus iawn yno. Maent yn llawn cymhelliant, yn foesgar a chwrtais iawn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn cydweithio'n dda ag eraill. Mae gan fwyafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 syniad priodol o'u cryfderau a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Mae'r disgyblion yn manteisio'n llwyddiannus ar gyfleoedd cyson i leisio barn ac i wneud penderfyniadau ynghylch eu dysgu. Mae'r cyngor ysgol yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol ac yn chwarae rôl bwysig ym mywyd yr ysgol. Er enghraifft, maent wedi cymryd rhan flaenllaw yn y broses ymgynghori ynglŷn â'r ysgol newydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn chwarae rhan lawn ym mywyd y gymuned. Maent yn cymryd rhan mewn cyngherddau ac yn codi arian at elusennau lleol. Mae gweithgareddau hyn yn cryfhau eu hymglymiad i'w hardal ac yn cyfrannu'n werthfawr tuag at eu datblygiad personol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau ysgogol i'r disgyblion, sy'n ymateb yn llawn i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae'r athrawon yn darparu amrywiaeth o brofiadau diddorol sy'n ennyn diddordeb a chwilfrydedd y rhan fwyaf o'r disgyblion. Maent yn sicrhau bod y profiadau dysgu yn adeiladu'n llwyddiannus ar brofiadau blaenorol gan annog annibyniaeth a medrau meddwl y disgyblion.

Mae'r ysgol wedi dechrau ymgorffori elfennau o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn briodol yng nghynlluniau'r ysgol. Mae'r athrawon yn cynllunio'n fwriadus i sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae gweithgareddau mentergarwch, sy'n cynnwys 'Ogof y Ddraig', yn cyfrannu'n arwyddocaol at ddatblygiad medrau rhifedd a llythrennedd y disgyblion.

Mae'r ysgol yn atgyfnerthu profiadau dysgu disgyblion yn fuddiol drwy drefnu ymweliadau addysgol a thrwy ystod dda o weithgareddau ymarferol diddorol. Er enghraifft, mae llawer o'r disgyblion hynaf yn manteisio ar wersi syrffio pob tymor yr haf. Mae hyn yn nodwedd gref o'r ysgol ac yn datblygu hunanhyder ac annibyniaeth y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae gan y dimensiwn Cymreig rôl ganolog yn yr ysgol. Darperir amrywiaeth dda o gyfleoedd ar gyfer datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddathliadau, hanes a diwylliant Cymru. Mae ymweliadau cyson i amrywiaeth o ganolfannau

preswyl ar draws Cymru yn atgyfnerthu hyn. Mae ymweliadau gan awduron lleol yn atgyfnerthu ymglymiad disgyblion i'w hardal leol yn llwyddiannus.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang wedi datblygu'n effeithiol yn yr ysgol ac mae'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn hyrwyddo ymwybyddiaeth eu cyd-ddisgyblion ymhellach. Maent yn sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu'n gynaliadwy. Dengys y disgyblion gonsyrn amlwg dros eraill gan godi arian yn rheolaidd at waith elusennol a dyngarol. Mae gan yr ysgol gysylltiadau gwerthfawr gyda Gwlad yr Iâ, sy'n hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o fywyd tu allan i Gymru.

**Addysgu: Digonol**

Mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o ddulliau addysgu sy'n sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni'n gadarn ac yn datblygu medrau dysgu annibynnol yn llwyddiannus. Mae perthynas waith dda yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion. Mae'r holl staff yn modelu iaith safonol yn effeithiol ac mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at gryfhau iaith lafar y disgyblion. Maent yn cwestiynu'n fedrus i ymestyn dealltwriaeth disgyblion a'u medrau meddwl yn effeithiol.

Mae gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o'r cwricwlwm ac maent yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu medrau'r disgyblion yn briodol. Maent yn darparu tasgau diddorol sy'n cymell diddordeb a brwdfrydedd y rhan fwyaf o ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth yn sicrhau bod y disgyblion mwy abl yn cael eu herio'n ddigon cyson ar draws yr ysgol ac mae gorddefnydd o daflenni gwaith parod yn cyfyngu medrau ysgrifennu disgyblion.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi dechrau gwreiddio'n briodol ac mae gwaith disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd. Mae sylwadau'r athrawon yn cynnig adborth addas i ddisgyblion, gan nodi beth y maent wedi'i gyflawni'n dda a'r hyn sydd angen iddyn nhw ei wneud er mwyn gwella. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn derbyn digon o gyfleoedd i ymateb i'r sylwadau er mwyn codi safonau nac ar gyfer asesu gwaith eu hunain a'u cyfoedion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau defnyddiol ar gyfer asesu, monitro a chofnodi cynnydd disgyblion. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd addas o ddata olrhain cynnydd a phrofion cenedlaethol er mwyn darparu ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth werthfawr am gynnydd eu plant, gan gynnwys adroddiadau blynyddol cynhwysfawr.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a theuluol ei naws lle mae oedolion a disgyblion yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r cyfle a roddir i'r disgyblion i fyfyrio'n dawel mewn gwasanaethau yn eu galluogi i ystyried anghenion eraill yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r clwb coginio yn agored i bob disgybl ac yn hybu eu hymwybyddiaeth o sut i gadw'n iach yn dda.

Gwna'r ysgol ddefnydd llwyddiannus o asiantaethau arbenigol sy'n cynnwys therapyddion iaith, heddwas lleol a'r gwasanaeth iechyd, er mwyn sicrhau bod disgyblion yn derbyn cefnogaeth a chynhaliaeth briodol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae gweithdrefnau trwyadl yn galluogi'r staff i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar. Mae rhaglenni ymyrraeth pwrpasol yn ymateb i anghenion unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae'r cynlluniau addysg unigol a ddarperir ar gyfer pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn fanwl ac yn cynnwys targedau clir. Mae'r rheini a'r disgyblion yn cael eu cynnwys yn dda yn yr adolygiadau rheolaidd o'r cynlluniau hyn. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd y disgyblion.

Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol Y Wern yn ysgol hapus, gyfeillgar a chefnogol. Mae'n ysgol gynhwysol sy'n rhoi pob cyfle i'r disgyblion gael ystod eang o brofiadau amrywiol o fewn a thu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Mae ethos yr ysgol yn seiliedig ar weithredu polisïau a gweithdrefnau sy'n parchu hawliau unigolion, beth bynnag fo'u cefndir a'u gallu. Maent yn cynnig cefnogaeth a chysur i bawb sy'n rhan o'i chymuned. Yn sgîl hyn, sicrha'r ysgol ei bod yn cynnig cyfleoedd da i'r disgyblion ddatblygu eu medrau ac aeddfedu i fod yn ddinasyddion cyfrifol.

Mae'r ysgol yn gwneud y gorau o'i hamgylchedd ffisegol ac mae'r safle yn hygyrch i rai ag anableddau. Mae cyflenwad priodol o adnoddau ar gyfer gwersi a gweithgareddau perthnasol. Defnyddir rhannau o'r ardal allanol, fel y warchodfa natur, er mwyn cynorthwyo'r dysgu yn effeithiol. Gwelir arddangosfeydd deniadol a lliwgar o lwyddiannau a gwaith y disgyblion ar draws yr ysgol a chaiff y deunydd hwn ei ddefnyddio'n briodol i ysgogi'r dysgu. Mae adeiladau a thir yr ysgol yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n effeithiol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth dros dro weledigaeth glir i arwain ysgol gynhwysol lle mae pob disgybl yn bwysig ac yn cyrraedd ei lawn botensial. Mae'n rhannu'r weledigaeth yn effeithiol gyda'r staff a'r llywodraethwyr er mwyn gwella cyrhaeddiad a lles disgyblion. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel o'r staff. Mewn cyfnod cymharol fyr, a chyfnod o ansefydlogrwydd yn y sefyllfa staffio, mae wedi llwyddo i gyflawni nifer o welliannau yn y ddarpariaeth sydd wedi effeithio'n gadarnhaol ar safonau. Enghraifft o hyn yw'r rhaglenni ymyrraeth effeithiol i godi safonau darllen Saesneg disgyblion bregus.

Mae gan yr holl staff swydd ddisgrifiadau sydd yn nodi cyfrifoldebau priodol yn glir. Mae athrawon yn cyfrannu'n effeithiol drwy gymryd rhan weithredol mewn gweithdrefnau monitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun gwella. Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar y broses gwella'r ysgol ac yn arwain at gamau gweithredu clir i wella arfer. Trwy ddadansoddi ystod o ddata perfformiad, mae gan yr athrawon ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu.

Mae'r ysgol yn cydgysylltu blaenoriaethau'r ysgol a datblygiad proffesiynol y staff â thargedau rheoli perfformiad yn effeithiol. Mae'r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae Siarter Iaith yr awdurdod a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn cael sylw priodol ac mae'r ysgol yn gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol ac wedi gweithredu'n effeithiol dros gyfnod o ansefydlogrwydd diweddar. Trwy ystyried data, trafodaethau gyda'r pennaeth ac ymweliadau â'r ysgol, mae ganddynt wybodaeth sicr am gryfderau'r ysgol a'r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Mae hyn yn eu cynorthwyo i herio'r ysgol yn hyderus ynglŷn ag agweddau ar y ddarpariaeth a safonau'r disgyblion.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r broses hunan arfarnu wedi ei seilio ar gasglu gwybodaeth o ystod gynhwysfawr o ffynonellau, gan gynnwys dadansoddi data, monitro gwersi, craffu ar lyfrau a chasglu barn staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion. Yn gyffredinol, mae'r adroddiad hunan arfarnu cyfredol yn rhoi darlun cytbwys o fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r pennaeth dros dro a'r cydlynwyr pwnc yn cyfrannu'n effeithiol at y broses hunan arfarnu. Yn gyffredinol, mae'r adroddiadau monitro yn ddadansoddol ac arfarnol, ac yn nodi'r cryfderau a'r meysydd sydd angen eu datblygu yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r meysydd sydd angen eu datblygu bob amser wedi eu hamlygu'n ddigon clir ym mlaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol. O ganlyniad, nid yw'r ysgol yn gweithredu'n ddigon effeithiol ar wybodaeth sy'n deillio o'r broses monitro er mwyn mynd i'r afael â thanberfformio, er enghraifft medrau darllen disgyblion yn y Gymraeg.

Mae'r cynllun gwella ysgol yn canolbwyntio'n glir ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae'n cynnwys strategaethau priodol ar gyfer gweithredu, ynghyd â meini prawf llwyddiant addas a threfniadau monitro. Fodd bynnag, nid yw'r blaenoriaethau na'r meini prawf llwyddiant bob amser yn ddigon penodol nac yn ddigon meintiol mewn mannau. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r ysgol i arfarnu cynnydd yn fanwl yn erbyn y dangosyddion llwyddiant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau llwyddiannus sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a phrofiadau dysgu disgyblion. Mae'r berthynas werthfawr rhwng yr ysgol a'r cartref yn sicrhau bod rhieni yn cymryd rôl weithredol yn addysg eu plant. Caiff rhieni wybodaeth ddefnyddiol am gynnydd a thargedau eu plant. Mae hyn yn nodwedd gref o'r ysgol.

Mae’r berthynas effeithiol rhwng yr ysgol ac asiantaethau arbenigol allanol yn cefnogi’r staff er mwyn darparu ystod o raglenni gwerthfawr sy’n cefnogi disgyblion yn dda. Mae’r ysgol yn cydweithio’n agos â’r Cylch Meithrin, sydd ar y safle, er mwyn sicrhau bod plant yn ymgartrefu’n fuan yn y dosbarth meithrin. Mae trefniadau trosglwyddo disgyblion hŷn i’r ysgol uwchradd yn eu paratoi’n dda at y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae’r athrawon yn cydweithio’n effeithiol ag ysgolion cyfagos a'r ysgol uwchradd. Maent yn elwa o'r profiadau hyn ac mae athrawon yn datblygu eu medrau wrth asesu a chymedroli gwaith disgyblion.

Mae partneriaeth gref rhwng yr ysgol a’r gymuned leol yn cyfoethogi profiadau dysgu’r disgyblion yn llwyddiannus. Enghraifft dda yw’r prosiect lleol sy’n hyrwyddo dygnwch meddyliol wrth i ddisgyblion drosglwyddo i’r cam nesaf yn eu haddysg.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan arweinwyr gynlluniau ariannol pendant wedi'u cysylltu'n glir â blaenoriaethau'r ysgol. Mae’r ysgol wedi ei staffio’n briodol ac maent yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd gan rannu eu harbenigedd a'u profiad i ddatblygu'r ddarpariaeth a chodi safonau. Caiff staff ategol eu defnyddio'n effeithiol ac maent yn cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad y disgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu wedi'i threfnu'n dda ac mae athrawon yn defnyddio'r amser hwn yn effeithiol i gyd gynllunio. Mae'r ysgol yn rhoi sylw dyledus i ddatblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff ac mae prosesau rheoli perfformiad cadarn a hyfforddiant defnyddiol yn cefnogi hyn yn llwyddiannus.

Mae cyflenwad da o adnoddau ar gyfer y disgyblion er mwyn bodloni gofynion holl agweddau'r cwricwlwm ac mae defnydd pwrpasol yn cael ei wneud o'r adeilad. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i dargedu a gwella safon darllen grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae'r gefnogaeth yn sicrhau bod bron pob un o’r disgyblion yn gwneud cynnydd nodedig yn eu medrau ffoneg a darllen, ac yn perfformio cystal â’u cyfoedion ar y lefel ddisgwyliedig. Mae’r arweinwyr yn gwneud defnydd pwrpasol o'r arian er mwyn cynnal ymweliadau addysgol sy’n cyfoethogi profiadau dysgu’r disgyblion a gwella eu presenoldeb yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned ddysgu broffesiynol sy'n galluogi staff i rannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd i gefnogi’r addysgu. Mae rhwydweithiau priodol o arfer broffesiynol gydag ysgolion y clwstwr a phartneriaid eraill yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyrhaeddiad disgyblion.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6712213 - YG Y Wern**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 150 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 30.2 | |
| Grŵp PYD | 4 | (24%<PYD<=32%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 16 | 15 | 11 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 56.3 | 73.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 16 | 15 | 11 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 68.8 | 73.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 6.3 | 40.0 | 27.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 16 | 15 | 11 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 68.8 | 73.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 6.3 | 13.3 | 27.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 16 | 15 | 11 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 50.0 | 46.7 | 54.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6712213 - YG Y Wern**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 150 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 30.2 | |
| Grŵp PYD | 4 | (24%<PYD<=32%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 24 | 21 | 25 | 16 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 75.0 | 90.5 | 96.0 | 68.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 21 | 25 | 16 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 75.0 | 90.5 | 100.0 | 75.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 8.3 | 14.3 | 16.0 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 21 | 25 | 16 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 75.0 | 85.7 | 100.0 | 75.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | 4.8 | 20.0 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 4 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 21 | 25 | 16 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 83.3 | 95.2 | 96.0 | 81.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 12.5 | 0.0 | 24.0 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 21 | 25 | 16 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 83.3 | 95.2 | 100.0 | 81.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | 4.8 | 20.0 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 58 | 58<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 58 | 57<br>98% | 1<br>2% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 58 | 58<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 58 | 58<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 58 | 58<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 58 | 58<br>100% | 0<br>0% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 58 | 58<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 58 | 57<br>98% | 1<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 58 | 52<br>90% | 6<br>10% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 58 | 57<br>98% | 1<br>2% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 58 | 56<br>97% | 2<br>3% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 57 | 56<br>98% | 1<br>2% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 32 | 18 | 11 | 2 | 1 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 56% | 34% | 6% | 3% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 32 | 23 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 72% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 32 | 22 | 10 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 32 | 12 | 14 | 5 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 38% | 44% | 16% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 32 | 15 | 13 | 2 | 0 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 47% | 41% | 6% | 0% | | |
| | | 46% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 32 | 15 | 13 | 3 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 47% | 41% | 9% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 32 | 16 | 16 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 50% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 31 | 10 | 11 | 4 | 3 | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 32% | 35% | 13% | 10% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 31 | 14 | 14 | 1 | 0 | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 45% | 45% | 3% | 0% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 32 | 19 | 12 | 0 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 59% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 32 | 18 | 11 | 2 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 56% | 34% | 6% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 32 | 12 | 10 | 2 | 0 | 8 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 38% | 31% | 6% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 30 | 13 | 9 | 5 | 3 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 43% | 30% | 17% | 10% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 32 | 19<br>59% | 12<br>38% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 32 | 11<br>34% | 12<br>38% | 4<br>12% | 0<br>0% | 5 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 38% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 32 | 12<br>38% | 16<br>50% | 1<br>3% | 0<br>0% | 3 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 31 | 8<br>26% | 9<br>29% | 4<br>13% | 1<br>3% | 9 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 43% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 32 | 20<br>62% | 9<br>28% | 2<br>6% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 32 | 14<br>44% | 13<br>41% | 1<br>3% | 1<br>3% | 3 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Kevin Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Sioned Hywel Thomas | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Bethan Madoc-Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Kevin Davies (Pennaeth | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.